Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011



## Canllawiau gweithredu Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011

ISBN 978 0 7504 6721 6
© Hawlfraint y Goron 2011
WG12899

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Pwrpas y canllawiau** | **2** |
| **2.** | **Cefndir i'r ddeddfwriaeth** | **3** |
| **3.** | **Dyletswyddau ar fusnesau gwelyau haul ac amddiffyniadau** | **5** |
| **4.** | **Gwerthu neu hurio gwelyau haul i bersonau o dan 18 oed ac amddiffyniadau** | **13** |
| **5.** | **Gorfodi** | **15** |
| | Awdurdodau lleol | 15 |
| | Swyddogion awdurdodedig | 15 |
| **6.** | **Atodlen 1: Dogfen Gwybodaeth Iechyd** | **17** |
| **7.** | **Atodlen 2: Rhybudd Gwybodaeth Iechyd** | **18** |
| **8** | **Atodiad 1: Crynodeb o Droseddau o dan y Rheoliadau** | **19** |

# 1. Pwrpas y canllawiau

Pwrpas y canllawiau anstatudol hyn yw cefnogi swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu'n llwyddiannus Reoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011. Daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Hydref 2011.

Lluniwyd y Rheoliadau dan bwerau a roddwyd gan Ddeddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010, a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2011. Mae'r Rheoliadau yn sicrhau mesurau ychwanegol i reoli'r defnydd a wneir o welyau haul yng Nghymru, yn unol â'r hyn a osodir allan yn y canllawiau hyn. Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â'r canllawiau a ddatblygwyd i gynorthwyo swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau lleol i weithredu ar y Ddeddf a'i gorfodi (mae dolen i'r canllawiau hynny isod): www.wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/sunbeds/?skip=1&lang=cy>

Datblygwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.

## 2. Cefndir i'r ddeddfwriaeth

Mae'r achos o safbwynt iechyd dros sicrhau deddfwriaeth ym maes dyfeisiau artiffisial sy'n rhoi lliw haul yn glir. Mae achosion o ganser y croen ar gynnydd. Prif achos canser y croen yw amlygu'r croen yn ormodol i belydrau uwchfioled (UV). Gallai hynny ddigwydd yn sgil goleuni naturiol yr haul neu yn sgil pelydrau artiffisial wrth ddefnyddio gwelyau haul a lampau haul. Fel arfer, mae canser y croen yn cymryd degawdau i ddatblygu, felly mae'n bosib na ddaw'n amlwg am flynyddoedd ar ôl i'r niwed gael ei achosi.

Bob blwyddyn, ceir oddeutu 100,000 o achosion newydd o ganser y croen nad yw'n felanoma yn y DU. Yn y DU yn 2007, yr oedd dros 84,500 o achosion o'r fath, ond byddai wedi bod modd trin y mwyafrif ohonynt. Melanoma malaen y croen, fodd bynnag, yw'r ffurf mwyaf peryglus o ganser y croen oherwydd y gall ymledu i organau eraill ac mae'n gyfrifol am y rhan fwyaf o farwolaethau yn sgil canser y croen. Yn 2007, yr oedd dros 10,670 o achosion o felanoma malaen yn y DU. Yn arwyddocaol, melanoma malaen yw'r canser mwyaf cyffredin ond un ymysg pobl ifanc 15-24 oed yn y DU.

Daeth y pryderon cynyddol am y cysylltiad rhwng canser y croen a gwelyau haul yn amlwg yn 2003 pan gyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd *Artificial Tanning Sunbeds: Risks and Guidance*[1] i gynorthwyo llywodraethau i ddatblygu polisi iechyd y cyhoedd ar welyau haul. Yr oedd y ddogfen yn dwyn sylw at dystiolaeth gynyddol a ddangosai fod amlygu'r croen yn gynyddol i belydriad UV yn cynyddu'r risg o ganserau'r croen, felly byddai defnyddio gwely haul, o ychwanegu hynny at amlygu'r croen i belydrau naturiol yr haul, yn cynyddu'r risg o ganser y croen. Yr oedd yr arweiniad hefyd yn cydnabod fod croen ifanc yn arbennig o agored i niwed ac yn argymell na ddylai pobl ifanc o dan 18 oed ddefnyddio gwelyau haul.

Ym mis Mehefin 2006 cyhoeddwyd rhybudd barn gan y Pwyllgor Gwyddonol ar Nwyddau Defnyddwyr (SCCP) i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch risgiau gwelyau haul i iechyd[2].

Nodai ei bod yn ymddangos fod y risg o felanoma yn arbennig o uchel pan gâi gwelyau haul eu defnyddio gan bobl ifanc. Argymhellodd yr SCCP hefyd na ddylai pobl ifanc o dan 18 oed ddefnyddio gwelyau haul. Mabwysiadwyd y farn gan yr Undeb Ewropeaidd ac yna galwodd y Comisiwn Ewropeaidd ar yr Aelod-Wladwriaethau i sicrhau bod gwelyau haul yn cael eu defnyddio'n briodol.

Edrychodd y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd, pwyllgor cynghori arbenigol annibynnol sy'n rhoi cyngor i'r Llywodraeth, ar yr effeithiau a'r risgiau i iechyd yn sgil amlygu croen i belydriad uwchfioled o welyau haul. Yr oedd ei adroddiad *The Health Effects and Risks Arising From Exposure to Ultraviolet Radiation from Artificial Tanning Devices*[3], a gyhoeddwyd ym Mehefin 2009, yn cadarnhau fod pelydriad UV o welyau haul yn gallu achosi canser y croen a bod pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed. Un o brif argymhellion ei adroddiad oedd y dylid gwahardd pobl dan 18 oed rhag gwneud defnydd masnachol o welyau haul.

Ym mis Gorffennaf 2009, dyrchafodd yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser (IARC), un o asiantaethau rhynglywodraethol Sefydliad Iechyd y Byd, ei ddosbarthiad o welyau haul o'r categori 'tebygol o fod yn garsinogenaidd i bobl' i'r categori 'carsinogenaidd i bobl', sef y categori uchaf o risg[4].

---

1 www.who.int/uv/publications/en/sunbeds.pdf
2 http://ec.europa.eu/health/ph_risk/committees/04_sccp/docs/sccp_o_031b.pdf
3 www.comare.org.uk/documents/COMARE13thReport.pdf
4 http://www.iarc.fr/en/media-centre/iarcnews/2009/sunbeds_uvradiation.php

Tra bo'r dystiolaeth wyddonol yn dangos bod cysylltiad rhwng gwelyau haul a chanser y croen, yr oedd astudiaeth ymddygiadol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gwblhawyd gan Ymchwil Canser y DU yn dangos lefel ofidus o ddefnydd gwelyau haul gan bobl ifanc. Yr oedd yr astudiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, yn dangos fod oddeutu 8.2% o bobl ifanc rhwng 11 ac 17 oed yng Nghymru wedi defnyddio gwelyau haul. Oedran cymedrig defnyddio gwely haul am y tro cyntaf yng Nghymru oedd 15 oed[5].

Cyn *Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010*[6] nid oedd unrhyw ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr i ddarparu'n benodol ar gyfer rheoleiddio gwelyau haul ac yr oedd yn amlwg nad oedd rheoleiddio gwirfoddol gan y diwydiant gwelyau haul yn gweithio.

## Y Ddeddfwriaeth

### Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 ("y Ddeddf")

Daeth y Ddeddf hon, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, i rym ar 8 Ebrill 2011. Ei phrif bwrpas yw atal plant a phobl ifanc dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul mewn mangre busnes masnachol.

Cyflwynwyd canllawiau, "*Sunbeds (Regulation) Act 2010: Guidance on the implementation of the Sunbeds (Regulation) Act 2010*"[6], ym mis Ebrill 2011 i gefnogi cyflwyniad y Ddeddf ar 8 Ebrill. Hefyd cyflwynwyd Canllawiau *Sunbeds (Regulation) Act 2010: Guidance on the implementation of the Sunbeds (Regulation) Act 2010 - Information for Sunbed Businesses*[6] ar gyfer busnesau gwelyau haul i'w helpu i weithredu'r Ddeddf ac i ddeall y ddeddfwriaeth.

### Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau")

Daw Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 i rym ar 31 Hydref 2011. Bydd y Rheoliadau:

- yn ei gwneud yn ofynnol goruchwylio'r defnydd o welyau haul;
- yn ymestyn y gofyniad i fusnesau sy'n gweithredu o fangre ddomestig sicrhau na chaiff gwelyau haul eu defnyddio, na'u cynnig at ddefnydd, pobl ifanc o dan 18 oed yn y fangre honno;
- yn gwahardd gwerthu neu hurio gwelyau haul i bersonau o dan 18 oed;
- yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth ragnodedig am iechyd i ddefnyddwyr;
- yn gwahardd darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud ag effeithiau gwelyau haul ar iechyd, ac eithrio deunydd sy'n cynnwys yr wybodaeth ragnodedig am iechyd; ac
- yn ei gwneud yn orfodol sicrhau bod offer llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio gan y cwsmeriaid.

Mae hi'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi'r mesurau rheoli deddfwriaethol hyn.

[5] http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/sunbed/?lang=en
[6] http://wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/sunbeds/?lang=en

# 3. Dyletswyddau ar fusnesau gwelyau haul ac amddiffyniadau

## Diffiniadau Allweddol at ddiben y Rheoliadau

**Gwely haul** - ystyr gwely haul yw dyfais drydanol a gynlluniwyd i roi lliw haul i groen pobl drwy allyrru pelydriad uwchfioled. Mae'r diffiniad yn cynnwys y dyfeisiau a ganlyn (ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- gwelyau haul i orwedd i lawr arnynt;
- gwelyau haul canopi;
- gwelyau haul fertigol i sefyll ynddynt;
- bythau lliw haul ("sun showers"); a
- lampau haul cludadwy.

**Mangre Gwelyau Haul** - yw'r fangre sydd wedi'i meddiannu gan berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul neu sydd, i unrhyw raddau, o dan reolaeth person o'r fath neu sy'n cael ei rheoli ganddo.

**Busnes Gwelyau Haul** - yw busnes sydd â gwelyau haul ar gael i'w defnyddio yn y fangre fusnes. At ddiben y Rheoliadau, gall busnes gwelyau haul gynnwys:

- mangre ddomestig sy'n cael ei defnyddio fel busnes gwelyau haul;
- parlyrau gwelyau haul;
- salonau harddwch;
- campfeydd mewn canolfannau hamdden;
- clybiau chwaraeon a ffitrwydd;
- gwestai; a
- gwersylloedd gwyliau.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bell ffordd ac mae'r Rheoliadau yn berthnasol i unrhyw fusnes sy'n cynnig gwelyau haul i'w defnyddio yn y fangre. Nid yw'n ofynnol bod taliad yn cael ei wneud, naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, am ddefnyddio'r gwelyau haul er mwyn i'r busnes ddod o dan y diffiniad o fusnes gwelyau haul.

**Parth dan gyfyngiad** - yw lle mewn mangre gwelyau haul sydd wedi'i amgáu'n gyfan gwbl neu'n rhannol ac sy'n cynnwys gwely haul a'r lle hwnnw'n un sydd wedi'i neilltuo ar gyfer defnyddwyr y gwely haul hwnnw neu, os nad yw'r gwely haul mewn lle sydd wedi'i amgáu'n gyfan gwbl neu'n rhannol, bob rhan o'r ystafell sy'n cynnwys y gwely haul.

**Goruchwylydd** - yw person sy'n rhedeg busnes gwelyau haul neu gyflogai neu asiant i'r person hwnnw.

## Gweithredu'r dyletswyddau parthed busnesau gwelyau haul

### 1. Atal gwelyau haul rhag cael eu defnyddio gan blant mewn mangre ddomestig

Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i fusnesau gwelyau haul sy'n gweithredu o fangreoedd domestig y dyletswydd a osodir allan yn adran 2 y Ddeddf i atal gwelyau haul rhag cael eu defnyddio gan blant.

Os yw busnes gwelyau haul yn gweithredu o fangre ddomestig, mae'n rhaid i'r sawl sy'n rhedeg y busnes sicrhau:

(i) na fydd pobl ifanc o dan 18 oed yn defnyddio gwely haul yn y fangre honno; neu

(ii) na fyddant hwy, na neb sy'n gweithredu ar eu rhan, yn cynnig gwely haul at ddefnydd person o dan 18 oed yn y fangre honno.

**Senario 1**

Mae T yn rhedeg busnes gwelyau haul o'i chartref. Mae gan T 2 wely haul yn ei garej sydd wedi'i haddasu. Mae T wedi mynychu hyfforddiant ac yn meddu ar y rhybuddion, y taflenni a'r offer llygaid amddiffynnol angenrheidiol. Oriau masnachu T, fel y'u hysbysebwyd, yw 10.30 am - 4.30 pm, drwy drefniant yn unig. Mae merch T, sef A, yn gwahodd cyfaill o'r ysgol, sef B, i'w chartref. Mae A a B yn 16 mlwydd oed. Maent yn cyrraedd cartref A am 6.00 pm tra bo T allan yn siopa. Mae A yn gwahodd B am sesiwn ar wely haul, fel y gwna hi ei hun yn aml unwaith y bydd y salon wedi cau. Mae B yn derbyn y cynnig ac yn cael sesiwn 15 munud. Mae rhieni B yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y digwyddiad.

Mae T wedi cyflawni trosedd. Mae T yn rhedeg busnes gwelyau haul ac wedi methu â sicrhau nad yw A a B, y ddwy o dan 18 oed, yn defnyddio gwely haul yn y fangre sy'n ymwneud â'i busnes hi.

## 2. Goruchwylio'r defnydd ar welyau haul

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhedeg busnes gwelyau haul sicrhau:

- bod y defnydd o welyau haul y busnes ym mangre'r busnes yn cael ei oruchwylio;
- bod goruchwylydd sy'n gymwys i gyflawni'r amrywiol ofynion goruchwylio a osodir allan yn y Rheoliadau.

Mae goruchwyliaeth yn golygu fod yn rhaid i oruchwylydd fod yn bresennol yn y fangre ar unrhyw adeg y mae person yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul, a bod y goruchwylydd wedi cyflawni amrywiol ofynion mewn perthynas â pherson a allai ddefnyddio, neu geisio defnyddio, un o welyau haul y busnes.

**Senario 2**

Mae T wedi bod yn gweithredu tri salon lliw haul ar y stryd fawr ers 2005. Mae'r salonau yn cynnwys gwelyau haul a weithredir drwy i'r defnyddiwr roi darnau arian i mewn i reolydd amseru. Mae T fel arfer yn ymweld â phob salon i'w hagor ac i'w cau yn ddyddiol ac mae hefyd yn galw i mewn yn ystod y dydd i wneud yn siwr fod popeth yn iawn. Ni chyflogir aelodau staff eraill yn y salonau.

Os bydd T yn parhau â'r model busnes hwn ar ôl 31 Hydref 2011 bydd yn cyflawni trosedd. Mae T yn gweithredu busnes gwely haul ac mae wedi methu â sicrhau fod goruchwylydd yn bresennol yn ei fangre ar unrhyw adeg y mae person yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul. Mae absenoldeb goruchwylydd cymwys hefyd yn golygu ei fod wedi methu â chyflawni'r amrywiol ofynion yng nghyswllt goruchwyliaeth a osodir allan isod.

O 31 Hydref ymlaen ni fydd mwyach yn bosibl rhedeg cyfleusterau rhoi lliw haul di-oruchwyliaeth 'a weithredir gan ddarnau arian' na chyfleusterau rhoi lliw haul 'o bell' y telir amdanynt ymlaen llaw. Bydd yn rhaid i bob mangre sicrhau bod goruchwylydd yn bresennol ar y safle gydol yr amser y caiff gwelyau haul eu defnyddio a phryd bynnag y mae cwsmeriaid yn ceisio eu defnyddio. Goruchwylydd yw person sy'n rhedeg busnes gwely haul neu gyflogai neu asiant i'r person hwnnw. Mae'n ofynnol i'r goruchwylydd wneud nifer o ymholiadau penodol ac i roi cymorth ac arweiniad.

Mae'n ofynnol i oruchwylwyr:

(1) wneud yn siwr fod y person yn 18 oed neu'n hŷn;

(2) cynorthwyo'r person i asesu'r math o groen sydd ganddo;

(3) rhoi arweiniad i'r person ynghylch defnyddio'r gwely haul gan ystyried asesiad y person o'r math o groen sydd ganddo ac unrhyw gyflyrau croen neu gyflyrau meddygol perthnasol eraill sy'n amlwg i'r goruchwylydd neu wedi'u datgelu iddo;

(4) cynghori'r person ar sut i weithredu'r gwely haul yn ddiogel;

(5) darparu'r wybodaeth ragnodedig am iechyd fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau; a

(6) sicrhau bod offer amddiffyn llygaid yn cael eu darparu a'u defnyddio.

Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r gofynion hyn isod:

**Gwirio fod person yn 18 oed neu'n hŷn**. Er nad yw'r Rheoliadau yn pennu hynny, gallai goruchwylwyr ddefnyddio'r dogfennau a ganlyn i wirio oedran y defnyddiwr:

- pasbort;
- trwydded yrru cerdyn-llun yr Undeb Ewropeaidd; neu
- gerdyn adnabod ffotograffig sy'n dwyn hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran cenedlaethol (PASS).

**Cynorthwyo'r person i asesu'r math o groen sydd ganddo**. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r goruchwylydd helpu'r person i wneud ei asesiad ei hun, nid i asesu'r math o groen sydd ganddo ar ei ran. Caiff croen ei ddosbarthu'n fras fel un o chwe math:

| | |
|---|---|
| **Math I** | Yn llosgi'n aml, byth bron yn cael lliw haul. Yn tueddu i fod â brychni haul, gwallt coch neu olau, llygaid glas neu wyrdd. |
| **Math II** | Yn llosgi fel arfer, weithiau'n cael lliw haul. Yn tueddu i fod â gwallt golau, llygaid glas neu frown. |
| **Math III** | Weithiau'n llosgi, yn cael lliw haul fel arfer. Yn tueddu i fod â gwallt a llygaid brown. |
| **Math IV** | Byth bron yn llosgi, yn cael lliw haul yn aml. Yn tueddu i fod â llygaid a gwallt brown tywyll. |
| **Math V** | Croen sy'n naturiol frown. Llygaid a gwallt yn aml yn frown. |
| **Math VI** | Croen sy'n naturiol frown/du. Llygaid du/brown fel arfer. |

Dylai'r goruchwylydd allu helpu'r cwsmer i asesu'r math o groen sydd ganddo a rhoi arweiniad p'un a ddylai ddefnyddio'r gwely haul ai peidio. Os yw'n defnyddio'r gwely haul dylai'r goruchwylydd roi arweiniad ynghylch nifer y munudau y dylid cyfyngu'r sesiwn iddynt. Mae Pwyllgor Gwyddonol yr UE ar Nwyddau Defnyddwyr wedi datgan y dylid cynghori pobl sydd â chroen o fath I a math II i beidio â defnyddio offer lliw haul UV. Dylai'r goruchwylydd roi arweiniad i bobl sydd â chrwyn o fathau III, IV, V neu VI ynghylch yr amser y dylent gyfyngu eu sesiwn iddo, gan ystyried gweithrediad cywir eu hoffer lliw haul UV.

Gallai cwsmer (18 oed neu hŷn) sydd â chroen o fath I neu fath II, er iddo gael cyngor i beidio â defnyddio offer lliw haul UV, ddal i ddewis defnyddio'r offer hynny; ond byddai'n ymwybodol o'r peryglon posibl o wneud hynny.

**Rhoi arweiniad i'r person ynghylch defnyddio'r gwely haul gan ystyried asesiad y person o'r math o groen sydd ganddo ac unrhyw gyflyrau croen neu gyflyrau meddygol perthnasol eraill sy'n amlwg i'r goruchwylydd neu wedi'u datgelu iddo.** Er mwyn cyflawni hyn dylai goruchwylwyr, yn ogystal â bodloni gofyniad (2), ofyn i ddarpar ddefnyddwyr a ydynt yn dioddef o unrhyw gyflyrau croen, neu a ydynt yn cymryd meddyginiaeth a allai beri adwaith yn sgil amlygu'r croen i Belydrau Uwchfioled. Nid yw'n ofynnol iddynt hwy gynghori p'un a fydd cyflyrau croen neu feddyginiaeth yn adweithio i belydrau uwchfioled, ond dylent gynghori'r darpar ddefnyddwyr na ddylid amlygu'r croen i belydrau nes cael cyngor meddygol. Dylai goruchwylwyr hefyd asesu, drostynt eu hunain, p'un a yw darpar ddefnyddwyr yn dioddef o gyflwr croen drwy asesu'r croen sydd i'w weld ac, os na chaiff y cyflwr ei ddatgelu yn sgil ymholiadau, dylid holi'r darpar ddefnyddwyr yn ôl yr angen.

**Cynghori'r person ar sut i weithredu'r gwely haul yn ddiogel**. Bydd hyn yn cynnwys yr amser a'r modd y dylid defnyddio'r offer, sut i amddiffyn y llygaid, defnyddio meddyginiaethau neu hufennau sy'n gwneud y croen yn fwy sensitif i oleuni'r haul, a dylai hefyd gynnwys cyngor iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau y caiff y gwely haul ei ddefnyddio'n ddiogel.

**Darparu gwybodaeth ragnodedig am iechyd**. Dylai'r goruchwylydd ddarparu'r wybodaeth i'r defnyddiwr ar bob achlysur ar y ffurf a ragnodir (yn unol ag Atodlen 1).

**Sicrhau bod offer amddiffyn llygaid yn cael eu darparu a'u defnyddio**. Mae'n ofynnol i'r goruchwylydd sicrhau bod offer amddiffyn llygaid yn cael eu darparu, ac y caiff wared ohonynt os mai offer untro ydynt, a'u diheintio cyn ei hailddefnyddio os mai offer amlddefnydd ydynt. Os yw defnyddwyr gwely haul yn dod â'u hoffer amddiffyn llygaid eu hunain gyda hwy, yna dylai'r goruchwylydd geisio sicrhau eu bod yn briodol. Dylai'r goruchwylydd, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, sicrhau bod y sawl sy'n defnyddio gwely haul yn gwisgo'r offer llygaid.

**Senario 3**

Mae C, sy'n 15 oed, yn aros mewn gwesty gyda'i rhieni. Mae C yn ymweld â chyfleusterau hamdden y gwesty ac yn gofyn am sesiwn gwely haul sy'n dod yn ddi-dâl. Mae S, sef derbynnydd y cyfleusterau hamdden, yn gofyn i C faint yw ei hoed hi ac mae C yn dweud wrth S ei bod yn 18 oed. Mae S yn gofyn iddi am brawf o'i hoedran, ac mae C yn esbonio nad oes ganddi brawf arni gan ei fod gartref. Mae S yn edrych ar C ac yn penderfynu ei bod yn edrych yn 18 fan lleiaf. Mae S yn helpu C i asesu'r math o groen sydd ganddi ac yn cynghori C i ddechrau gyda sesiwn 8 munud. Mae S yn rhoi cyngor i C ar sut i ddefnyddio'r gwely haul yn ddiogel, yn rhoi'r wybodaeth ragnodedig am iechyd iddi ac yn dweud wrth C fod yn rhaid iddi ddefnyddio'r offer amddiffyn llygaid a ddarperir.

Cyflawnwyd trosedd o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau. Nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth nad oes raid talu am ddefnyddio'r gwely haul (e.e. mae'n rhan o becyn gwyliau'r gwesty). Ni lwyddodd y derbynnydd i wirio bod C dros 18 oed pan oedd yn ceisio defnyddio'r gwely haul a rhoddwyd cynnig i C ddefnyddio'r gwely haul. Ni lwyddodd S i lwyr ateb y gofynion a roddir ar oruchwylydd.

## Cymhwysedd y goruchwylydd

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw un sy'n rhedeg busnes gwelyau haul yn sicrhau bod goruchwylydd yn gymwys. Mae goruchwylydd yn gymwys pan mae ef neu hi wedi cael hyfforddiant digonol ac yn meddu ar ddigon o brofiad neu wybodaeth a phriodweddau eraill i'w g/alluogi i gyflawni'n gyfan gwbl y gofynion a osodir allan uchod. Mater i'r sawl sy'n gweithredu'r busnes yw sicrhau cymhwyster y staff a benodir fel goruchwylwyr; dylai swyddogion gorfodi sicrhau, felly, pa gamau y mae'r sawl sy'n gweithredu'r busnes wedi'u cymryd i sicrhau cymhwysedd y staff goruchwylio. Mater i'r bobl sy'n gweithredu'r busnesau fydd bodloni'r swyddog gorfodi eu bod wedi gwneud digon i fodloni eu hunain ynghylch cymhwyster parhaus eu goruchwylwyr a bod sicrhau cymhwysedd a chydymffurfiaeth â'r cyfrifoldebau goruchwylio yn weithgarwch parhaus. Er nad oes yn rhaid i oruchwylwyr ymgymryd â hyfforddiant i brofi eu bod yn gymwys, y mae nifer o gyrsiau hyfforddiant ar gael i'w helpu i wneud hynny.

**Senario 4**

Mae S yn ferch trin dwylo hunangyflogedig nad oes ganddi unrhyw brofiad mewn gwelyau haul nac wedi cael hyfforddiant. Mae T yn gofyn iddi 'oruchwylio' ei salon gwelyau haul. Mae T yn dweud wrth S y gall fwrw ymlaen â'i gwasanaeth trin dwylo mewn ciwbicl sbâr tra'n goruchwylio'r salon gwelyau haul. Mae D, sy'n gwsmer 35 oed, yn mynychu'r salon am sesiwn gwely haul. Nid yw D, sydd â chroen golau a gwallt coch, erioed wedi defnyddio gwely haul o'r blaen. Wrth i D fynd i mewn i'r salon, mae S, sydd wrthi'n trin dwylo cleient yn ei chiwbicl, yn cymryd cipolwg heibio'r drws ac yn dweud wrth D fynd ymlaen a defnyddio ciwbicl y gwely haul gan ei fod yn wag. Mae S yn dweud wrth D wneud yn siwr ei bod yn darllen y daflen diogelwch a ddarperir ac i wisgo'r offer amddiffyn llygaid a ddarperir cyn mynd ar y gwely haul.

Mae T wedi cyflawni trosedd. Er bod S yn bresennol yn y fangre pan oedd D yn ceisio defnyddio gwely haul, methodd S â goruchwylio'r defnydd a wnaed o'r gwely haul. Ni wnaeth S helpu D i asesu'r math o groen sydd ganddi nac i roi arweiniad i D ar ddefnyddio'r gwely haul, gan ystyried asesiad D o'i chroen. Dylai'r goruchwylydd fod wedi dweud wrth D am beidio â defnyddio'r gwely haul, o ystyried ei chroen golau a'i gwallt coch. Hefyd, methodd T â sicrhau bod S yn oruchwylydd cymwys.

### 3. Darparu ac arddangos gwybodaeth ragnodedig am iechyd

Cynlluniwyd y Rheoliadau i sicrhau fod unrhyw un sy'n ystyried defnyddio gwely haul, neu sydd yn defnyddio gwely haul, yn gwneud hynny gan wybod yn iawn beth yw'r peryglon posibl i'w hiechyd.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud hynny mewn tair ffordd:

- drwy ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth ragnodedig am iechyd i'r unigolyn;
- drwy ei gwneud yn ofynnol dangos gwybodaeth fwy cyffredinol mewn man amlwg yn y fangre; a
- thrwy wahardd hawliadau y gallai defnyddio'r offer fod yn llesol i iechyd.

Mae'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau fod yn:

- rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul roi i bob person, bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio, neu yn defnyddio, gwely haul yn y fangre gwelyau haul, wybodaeth ragnodedig am iechyd sy'n ymwneud â defnyddio gwelyau haul;
- rhaid cynnwys y wybodaeth ragnodedig am iechyd mewn dogfen sy'n wastad ac yn betryal ac yn A4 o leiaf o ran maint ac wedi'i hargraffu mewn llythrennau duon, rhwydd i'w darllen, ar gefndir melyn.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei rhoi bob tro y mae person yn bwriadu defnyddio'r gwely haul yn y fangre honno. Ni chaniateir i fusnesau gwelyau haul ychwanegu at y geiriad rhagnodedig, na'i ddiwygio, gwyro oddi wrtho na dileu unrhyw ran ohono.

**Senario 5**

Mae E, sy'n 25 oed, yn ymweld â salon gwelyau haul, lle mae ganddi apwyntiad wythnosol rheolaidd. Mae E wedi talu ymlaen llaw am 10 sesiwn ac y mae ar fin defnyddio'r 6ed sesiwn o'r 10 a brynodd. Mae E yn adnabod staff y salon yn dda, gan ei bod wedi bod yn mynychu'r lle ers tro. Pan mae E yn cyrraedd yn y salon, mae S, y goruchwylydd, yn dweud wrth E am fynd yn syth i'r ciwbicl gwely haul gan ei fod yn wag. Nid yw S yn rhoi'r wybodaeth ragnodedig am iechyd i E gan ei bod yn gwybod fod E wedi gweld yr wybodaeth o'r blaen.

Cyflawnwyd trosedd. Rhaid rhoi'r wybodaeth ragnodedig am iechyd bob tro y mae person yn bwriadu defnyddio'r gwely haul yn y fangre honno.

**Senario 6**

Ar sail yr un ffeithiau â Senario 5, ond pan mae E yn cyrraedd y salon mae S, y goruchwylydd, sy'n cadw fersiwn wedi'i lamineiddio o'r wybodaeth ragnodedig am iechyd wrth y til, yn rhoi'r fersiwn wedi'i lamineiddio i E. Mae E yn edrych arno ac yn ei ddychwelyd cyn mynd i mewn i giwbicl y gwely haul.

Ni chyflawnwyd trosedd. Rhoddwyd y wybodaeth ragnodedig am iechyd i E.

Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul hefyd arddangos hysbysiad mewn man amlwg, lle y mae'n hawdd i berson ei weld bob tro y mae'n ceisio defnyddio gwely haul. Golyga hyn fod yn rhaid iddo fod wedi'i osod yn y fath fodd ag i ddod i olwg person ar unwaith pan aiff i mewn i'r fangre gwelyau haul a phan aiff i mewn i bob parth dan gyfyngiad yn y fangre honno.

**Rhaid i'r hysbysiad:**

- gynnwys yr wybodaeth am iechyd a ragnodir yn y Rheoliadau;
- fod wedi'i osod yn y fath fodd fel bod person yn ei weld ar unwaith pan ddaw i mewn i fangre gwelyau haul ac wrth fynd i mewn i bob parth dan gyfyngiad yn y fangre honno;
- fod yn A3 o leiaf o ran maint; ac
- wedi'i argraffu mewn llythrennau duon, o leiaf 20 milimedr eu maint, ar gefndir melyn.

Bwriad y Rheoliadau yw rhoi neges syml a chlir am y risgiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul, a honno yn rhwydd i'w gweld gan y rhai sy'n bwriadu defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul.

Yn sgil ailddosbarthu dyfeisiau lliw haul UV yn ddiweddar fel Carsinogenau Grŵp 1 gan yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser (IARC), atgyfnerthwyd tystiolaeth COMARE gan gefnogi arddangos gwybodaeth am iechyd mewn mangreoedd gwelyau haul. Ni chaniateir i fusnesau gwelyau haul ychwanegu at y geiriad rhagnodedig, na'i ddiwygio, gwyro oddi wrtho na dileu unrhyw ran ohono.

Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul beidio â darparu nac arddangos unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys datganiadau ynghylch effeithiau gwelyau haul ar iechyd, ac eithrio'r wybodaeth ragnodedig am iechyd. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn caniatáu ar gyfer darparu neu arddangos unrhyw wybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch.

**Senario 7**

Mae busnes gwelyau haul yng Nghymru yn arddangos poster yn yr ystafell aros sy'n datgan 'mae ein gwelyau haul yn hyrwyddo lefelau Fitamin D, yn atgyfnerthu eich system imiwnedd ac yn gwella cyflyrau croen'.

Cyflawnwyd trosedd. Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul beidio â darparu nac arddangos deunydd sy'n cynnwys datganiadau ynghylch effeithiau gwelyau haul, ac eithrio'r wybodaeth ragnodedig am iechyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu digon o gopïau wedi'u hargraffu i awdurdodau lleol o'r wybodaeth ragnodedig am iechyd a wnaed o dan y Rheoliadau ar ffurf taflenni a phosteri cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Caiff y rhain eu danfon yn uniongyrchol at awdurdodau lleol i'w dosbarthu ymlaen i fusnesau gwelyau haul yn eu hardaloedd. Mae copïau ar ffurf PDF hefyd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.wales.gov.uk/topics/health/protection/environmental/publications/leaflet/?skip=1&lang=cy>

## 4. Offer amddiffyn llygaid

Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul:

- drefnu bod offer amddiffyn llygaid ar gael i berson sy'n ceisio defnyddio gwely haul ym mangre'r busnes; neu
- sicrhau bod pobl yn dod ag offer amddiffyn llygaid priodol gyda hwy; a
- sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol bosibl o fewn rheswm, fod person sy'n defnyddio gwely haul ym mangre'r busnes yn gwisgo offer amddiffyn llygaid o'r fath.

Os yw'r offer amddiffyn llygaid a ddarperir gan y sawl sy'n rhedeg busnes gwelyau haul yn offer amlddefnydd, rhaid eu diheintio'n briodol cyn iddynt fod ar gael i'w hailddefnyddio.

Ni ddylai busnesau gwelyau haul ganiatáu i unrhyw un ddefnyddio gwely haul heb offer llygaid sy'n ddiogel ac yn briodol i'w defnyddio gyda'r gwely haul, ac sy'n amddiffyn llygaid y sawl sy'n defnyddio'r gwely haul rhag effeithiau cael eu hamlygu i'r pelydriad a gaiff ei allyrru o'r gwely haul. Y bwriad hefyd yw fod person yn defnyddio offer amddiffyn llygaid bob tro y mae'n ymweld â mangre gwelyau haul.

Sylweddola Llywodraeth Cymru ei bod yn anodd i weithredwyr sicrhau bod yr offer amddiffyn llygaid yn cael eu gwisgo gan y defnyddwyr yn ystod sesiwn gwely haul. Mae'r Rheoliadau, felly, yn ceisio sicrhau bod y defnyddiwr yn meddu ar offer amddiffyn llygaid cyn mynd i mewn i'r parth dan gyfyngiad. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ymhellach ar gyfer diheintio gogls amlddefnydd a ddarperir gan y busnes gwelyau haul.

Pan fo busnes gwelyau haul yn darparu offer llygaid, gall fod yn offer untro neu'n offer tafladwy, neu yn offer amlddefnydd. Nid yw'n ofynnol i'r ddarpariaeth fod yn ddi-dâl, felly caiff gweithredwyr busnes godi tâl am offer llygaid os ydynt yn dymuno. Rhaid cael gwared o offer llygaid tafladwy ar ôl iddynt gael eu defnyddio a rhaid diheintio offer amlddefnydd yn briodol cyn eu hailddefnyddio. Dylai swyddogion gorfodi wneud yn siwr bod gweithdrefnau salonau yn gwneud diheintio offer llygaid amlddefnydd yn ofynnol, bod deunydd glanhau cemegol priodol yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr, a bod y weithdrefn yn digwydd rhwng pob defnydd a wneir o'r offer amddiffyn llygaid.

Mae offer amddiffyn llygaid yn offer llygaid diogel a phriodol i'w defnyddio gyda gwely haul ac sy'n amddiffyn y sawl a ddefnyddia'r gwely haul rhag effeithiau'r pelydriad a gaiff ei allyrru o'r gwely haul. Rhaid i offer amddiffyn llygaid amddiffyn y llygaid yn ddigonol o'r tu blaen ac o'r ochrau. Pan gaiff offer amddiffyn llygaid eu darparu gan y busnes gwelyau haul, mater i'r swyddog gorfodi yw penderfynu a yw'r hyn a ddarperir fel offer 'diogel a phriodol', yn ddigonol mewn gwirionedd at ddibenion y ddeddfwriaeth. Mae rhai gwneuthurwyr offer amddiffyn llygaid wedi rhoi nodyn CE ar flychau eu cynnyrch i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol[7]. Yn achos offer llygaid a ddarperir gan y gweithredwr, gallai'r swyddog gorfodi ofyn am gael gweld data'r gwneuthurwr, neu ddatganiad arall i brofi bod yr offer llygaid yn briodol i'w defnyddio gyda'r gwelyau haul a ddarperir.

**Senario 8**

Mae S, y goruchwylydd, yn gofyn i F, y cwsmer, pan mae'n ymweld â'r busnes gwely haul, a yw wedi dod ag offer amddiffyn llygaid gydag ef, neu a fyddai'n hoffi defnyddio'r offer llygaid tafladwy a ddarperir yn ddi-dâl gan y salon. Mae F yn ateb nad yw'n gwisgo gogls am nad yw eisiau llygaid fel panda (croen gwyn o amgylch y llygaid). Mae S yn caniatáu i F fynd i mewn i'r parth dan gyfyngiad.

Cyflawnwyd trosedd. Rhaid i S sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl o fewn rheswm, bod person sy'n defnyddio gwely haul ym mangre'r busnes yn gwisgo offer amddiffyn llygaid. Ni ddylai F fod wedi cael caniatâd i fynd i mewn i'r ciwbicl os nad oedd wedi dod ag offer amddiffyn llygaid gydag ef a oedd yn ddiogel ac yn briodol i'w defnyddio gyda'r gwely haul.

[7] BS EN 60335-2-27:2010, PPE Cyfarwyddeb 89/686/CEE (fel ag y'i haddaswyd) [BS EN166 2002, BS EN170 2002]

## Amddiffyniadau

Mae person sy'n rhedeg busnes gwelyau haul sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r dyletswyddau yn cyflawni trosedd. Mae pob trosedd yn drosedd atebolrwydd llwyr. Ond cânt eu lliniaru gan amddiffyniad os gall y sawl a gyflawnodd drosedd brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol rhag cyflawni'r drosedd, a bod y camau hynny wedi'u gweithredu'n briodol.

Dyma rai enghreifftiau o ragofalon rhesymol a diwydrwydd dyladwy y gallai busnesau gwelyau haul eu sicrhau:

- Hyfforddi a chynghori staff ar sut i wirio oedran defnyddwyr, gan gynnwys y mathau o ddogfen y gellid eu defnyddio i brofi oedran.
- Cynnwys proses gwirio oedran yn y dogfennau gwerthu/hurio.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i oruchwylwyr sy'n ymwneud â phob agwedd ar oruchwyliaeth, hyfforddi goruchwylwyr yn y gweithdrefnau hyn a chadw cofnod o'r hyfforddiant hwn.
- Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad (a chanlyniad) lle'r oedd aelod staff wedi herio darpar ddefnyddiwr am eu hoedran, defnydd o offer amddiffyn llygaid ayb.
- Cadw cofnodion ysgrifenedig ar gyfer pob defnyddiwr ar gyfer pob sesiwn.
- Defnyddio nodiadau cynorthwyol ar y til ar gyfer trafodion defnyddio gwelyau haul, os yw'r cyfleuster ar gael.
- Ymgymryd ag asesiad o wybodaeth a dealltwriaeth y goruchwylydd yn erbyn yr wybodaeth a'r cymorth y mae'n ofynnol eu darparu.
- Darparu hyfforddiant priodol i'r goruchwylydd sy'n ymdrin yn ddigon trylwyr â'r wybodaeth angenrheidiol.
- Ymgymryd ag asesiad o allu'r goruchwylydd i gyfathrebu'r wybodaeth i gwsmeriaid.
- Cynnal archwiliadau dirybudd i sicrhau bod y gofynion yn cael eu gweithredu.
- Sicrhau fel mater o drefn fod yr hysbysiadau rhagnodedig yn eu lle a bod cyflenwadau o daflenni gwybodaeth iechyd ar gael.
- Sicrhau bod cyflenwadau digonol o offer amddiffyn llygaid priodol ar gael bob amser.

## 4. Gwerthu neu hurio gwelyau haul i bersonau o dan 18 oed ac amddiffyniadau

Mae'r Rheoliadau'n gwahardd:

- gwerthu gwely haul i berson sydd o dan 18 oed.
- hurio gwely haul i berson sydd o dan 18 oed.

Bydd gwerthwr neu huriwr sy'n methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad yn cyflawni trosedd; ac elfennau allweddol y trosedd felly yw:

- fod person sy'n werthwr neu'n huriwr;
- fod gofyniad diamod parthed oedran y sawl sy'n prynu neu'n hurio'r gwely haul; a
- bod gan y gwerthwr neu huriwr amddiffyniad os yw ef/hi yn cymryd pob rhagofal ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd.

Wrth ymchwilio i droseddau honedig, dylai swyddogion gorfodi wneud ymholiadau am y dull a ddefnyddiwyd gan y gwerthwr/huriwr i wirio bod y person sy'n gwneud y contract o leiaf 18 oed. Os oedd yr huriwr neu'r gwerthwr, neu gyflogai neu asiant i'r huriwr neu'r gwerthwr, wedi cymryd pob cam rhesymol i wirio oedran y person, byddai amddiffyniad ar gael mewn unrhyw achos am drosedd o'r fath.

**Senario 9**

Mae T yn gweithredu salon gwelyau haul yn Aberystwyth. O'r salon, mae T yn gwerthu ac yn hurio gwelyau haul i'w defnyddio gartref. Mae G, sy'n 16 oed, yn ymweld â'r siop ac yn hurio gwely haul am y penwythnos. Ni ofynnir iddo faint yw ei oed, nac am unrhyw ddogfennau i brofi ei oedran. Mae T yn honni fod G yn edrych o leiaf 18.

Mae T wedi cyflawni trosedd. Nid oes gan T amddiffyniad am na chymerodd T pob rhagofal rhesymol nac arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni trosedd - gallai T fod wedi gofyn i G am brawf o'i oedran (e.e. pasbort G).

### Gwerthu neu hurio gwelyau haul o bell

Mae'r Rheoliadau yn berthnasol yng Nghymru yn unig, ond mae potensial ar gyfer gwerthu a hurio gwelyau haul rhwng Cymru a gwledydd eraill. Mae'r Rheoliadau felly'n darparu ar gyfer amgylchiadau pan fo'r fangre lle y derbynnir yr archeb am y gwely haul yn wahanol i'r fangre yr anfonir yr offer allan ohoni. Yn gyffredinol, mae'r gwerthu neu'r hurio i'w drin fel pe bai wedi digwydd yn y fangre lle y derbyniwyd yr archeb. Os nad yw'r fangre lle y derbynnir yr archeb am y gwely haul yng Nghymru, a bod y fangre lle yr anfonir y gwely haul ohoni yng Nghymru, mae'r gwerthu neu'r hurio i'w drin fel pe bai'n digwydd yn y fangre yr anfonir y gwely haul ohoni.

#### Crynodeb:

Beth sy'n digwydd os yw'r fangre lle y derbynnir yr archeb ("**Mangre A**") am brynu neu hurio gwely haul yn wahanol i'r fangre yr anfonir yr eitem ohoni ("**Mangre B**") i'r cwsmer?

Y sefyllfa gyffredinol yw bod y gwerthu neu'r hurio i'w drin fel pe bai wedi digwydd ym **Mangre A**.

Os yw **Mangre A** y tu allan i Gymru ond fod **Mangre B** yng Nghymru mae'r gwerthu neu'r hurio i'w drin fel pe bai wedi digwydd ym **Mangre B**.

Os yw **Mangre A** a **Mangre B**, y naill a'r llall y tu allan i Gymru, ni ellir cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa - mae'n rhagdybio fod person ifanc o dan 18 oed wedi prynu neu hurio gwely haul ac nad oes gan y gwerthwr unrhyw amddiffyniad (e.e. ni chymerodd y gwerthwr gamau i wirio oedran):

| Mangre A [Derbyniwyd yr Archeb] | Mangre B [Anfonwyd yr Eitem allan] | Gwlad Berthnasol | Trosedd? |
|---|---|---|---|
| Cymru | Cymru | Cymru | Oes |
| Arall | Cymru | Cymru | Oes |
| Cymru | Arall | Cymru | Oes |
| Arall | Arall | Arall | Nac Oes |

**Senario 10**

Mae T yn rhedeg Tan.Com Ltd, sy'n gwerthu ac yn hurio gwelyau haul i'w defnyddio gartref o ddwy siop yn yr Amwythig ac Aberystwyth. Mae Tan.Com yn hysbysebu ar y we ac yn gweithio o'r Amwythig, lle mae swyddfa gofrestredig y cwmni.

Mae H, sy'n 16 oed, yn ymweld â siop Tan.Com yn yr Amwythig ac yn hurio gwely haul ar gyfer parti diwedd tymor gan ddefnyddio ei cherdyn debyd. Ni ofynnir iddi am ei hoedran. Caiff y gwely haul ei anfon allan o siop Tan.Com yn yr Amwythig a'i ddanfon i gartref H yn y Trallwng.

Nid oes trosedd wedi'i gyflawni gan fod y fangre lle y derbyniwyd yr archeb am hurio'r gwely haul a'r fangre y'i anfonwyd allan, y naill a'r llall, y tu allan i Gymru.

**Senario 11**

Yn seiliedig ar yr un ffeithiau â Senario 10, ac eithrio bod y gwely haul wedi'i anfon allan i H o'r siop yn Aberystwyth.

Mae T wedi cyflawni trosedd gan fod y gwely haul wedi'i anfon allan i H o fangre yng Nghymru, a chaiff yr hurio ei drin fel pe bai wedi digwydd o'r fangre honno.

## Amddiffyniad

Mae gan y sawl a gyflawnodd y trosedd amddiffyniad os gall brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol rhag cyflawni'r trosedd, a bod y camau hynny wedi'u gweithredu'n briodol. Gallai wneud hyn drwy gymryd camau i wirio oedran y person sy'n bwriadu prynu neu hurio'r gwely haul, er enghraifft drwy ofyn am gael gweld pasbort y person neu ddogfennau cyffelyb sy'n profi oedran.

# 5. Gorfodi

## Trosolwg

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio yn disgrifio blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwaith rheoleiddio yn lleol. Cyhoeddwyd y blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2010 gan y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol (LBRO). Lluniwyd y blaenoriaethau gan yr LBRO ar y cyd gydag awdurdodau lleol, rheoleiddwyr cenedlaethol a chyrff cynrychiolwyr a phroffesiynol.

Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i barchu blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer rhai o'u swyddogaethau rheoleiddio. Mae swyddogaethau rheoleiddio yng nghyswllt gwelyau haul yn syrthio i'r categori hwnnw. Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru fel a ganlyn:

- Gwarchod unigolion rhag niwed a hybu gwell iechyd.
- Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid.
- Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnes.
- Gwella'r amgylchedd lleol i gael dylanwad cadarnhaol ar fywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n rhedeg busnes gwelyau haul i gydweithio er mwyn datrys problemau'n wirfoddol pryd bynnag y bo modd. Mae'r Llywodraeth yn credu mai addysg ac arweiniad ddylai'r ymateb cyntaf fod, ac mai dim ond pan fo dulliau anffurfiol wedi methu y dylid cymryd camau gorfodi ffurfiol.

## Awdurdodau Lleol

Mae'r Rheoliadau'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi'r Rheoliadau yn eu hardaloedd unigol, ac i benodi swyddogion awdurdodedig i'r diben hwnnw.

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau yng Nghymru yw:

- Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol; ac
- Awdurdod Iechyd Porthladd, i'r graddau y bo swyddogaethau awdurdod lleol o dan y Ddeddf wedi'u haseinio iddo.

## Swyddogion awdurdodedig

Bydd angen i awdurdodau lleol benodi swyddogion awdurdodedig priodol i gyflawni dyletswyddau i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau.

Mae 'swyddog awdurdodedig' yn golygu pob swyddog a awdurdodwyd gan awdurdod lleol i ymgymryd â'r gwaith o sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau.

Gallai swyddogion presennol, sydd â phrofiad o ymgymryd â dyletswyddau gorfodi yng nghyswllt busnesau, megis swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion safonau masnach, ymgymryd â'r gwaith hwn a gallent ymgorffori'r gwaith hwn i'w gweithgareddau arolygu eraill.

Bydd yn rhaid i swyddogion fod wedi'u hawdurdodi dan y Rheoliadau yn unol â gweithdrefnau arferol eu hawdurdodau lleol.

## Arolygu

Mae gan swyddogion awdurdodedig yr hawl i fynd i mewn i fangreoedd sydd, yn eu barn hwy, yn fusnesau gwelyau haul a chynnal arolygiadau. Caiff Swyddogion Awdurdodedig fynd i mewn i unrhyw fangre ddomestig gyda chaniatâd y preswylydd os oes rheswm gan y swyddog dros gredu fod busnes gwelyau haul yn cael ei redeg yno.

Bydd arolygiadau gan swyddogion awdurdodedig naill ai:

- yn adweithiol, h.y. mewn ymateb i gŵyn; neu
- yn rhagweithiol h.y. ymweliadau cydymffurfio i wirio ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau, a chydymffurfiad â hwy fel rhan o ddull gweithredu ar sail risg.

Bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu sut y maent am ddelio gyda chwynion a chudd-wybodaeth y maent yn eu derbyn o amrywiol ffynonellau.

Bydd yn briodol cynnal arolygiadau rhagweithiol ac adweithiol fel rhan o waith cydymffurfio arall. Ni fydd rhaid i swyddogion awdurdodedig roi rhybudd o'u hymweliadau arolygu at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Mae'r pwerau gorfodi ar gyfer Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 a Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 yn y Ddeddf ei hun.

# 6. Atodlen 1

# GWYBODAETH IECHYD I DDEFNYDDWYR GWELYAU HAUL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Gall defnyddio gwelyau haul niweidio'ch iechyd yn y tymor hir. Maent wedi eu cysylltu â'r canlynol:**

- risg uwch o ganser y croen – mae pobl sy'n defnyddio gwelyau haul am y tro cyntaf cyn iddynt fod yn 35 oed yn cynyddu eu risg o ddatblygu melanoma malaen (y ffurf fwyaf difrifol ar ganser y croen) 75 y cant;
- niwed i'r llygaid gan gynnwys risg uwch o gael cataractau – os na fydd offer priodol i amddiffyn y llygaid yn cael eu gwisgo; a
- heneiddio'r croen cyn pryd sy'n golygu y bydd eich croen yn mynd yn arw, fel lledr ac yn grychiog pan fyddwch yn iau.

**Mae'r risgiau iechyd o ddefnyddio gwely haul yn uwch nag unrhyw fuddion posibl y gallent eu rhoi o ran cynorthwyo'r corff i greu Fitamin D.**

**Mae effeithiau iechyd byrdymor hefyd, sef:**

- croen sydd wedi llosgi yn yr haul, ac a all fynd yn goch, yn boenus ac yn bothellog;
- sychder croen;
- brech "wres" goslyd; a
- cosi yn y llygaid neu lid pilen y llygad os na wisgir offer priodol i amddiffyn y llygaid.

**Ni ddylech ddefnyddio gwely haul:**

- os ydych wedi cael canser y croen yn y gorffennol;
- os oes gennych hanes teuluol o ganser y croen;
- os oes gennych groen golau neu sensitif;
- os ydych yn llosgi'n hawdd yng ngolau'r haul;
- os oes gennych lawer o frychau haul a/neu wallt coch;
- os oes gennych lawer o fannau duon;
- os ydych yn defnyddio meddyginiaeth neu eliau sy'n gwneud eich croen yn fwy sensitif i olau'r haul;
- os oes gennych gyflwr meddygol sy'n cael ei waethygu gan olau'r haul;
- os oes gennych system imiwnedd sydd wedi ei gwanhau;
- os methwch ag amddiffyn eich llygaid – peidiwch byth â defnyddio gwely haul heb wisgo offer priodol i amddiffyn eich llygaid; neu
- os ydych o dan 18 oed (ac ni chaiff neb o dan 18 oed ddefnyddio gwely haul yn y fangre hon).

**Mae rhai menywod yn canfod bod eu croen yn fwy sensitif yn ystod beichiogrwydd. Gallai hyn olygu bod eich croen chi yn fwy tebygol o losgi yn yr haul neu os byddwch yn defnyddio gwely haul.**

Her Iechyd Cymru / Health Challenge Wales

© Hawlfraint y Goron / Crown copyright Llywodraeth Cymru 2011 WG12552

Mae copiau pellach ar gael yn: www.cymru.gov.uk/iechyd

## 7. Atodlen 2



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk
GWYBODAETH IECHYD
GALL DEFNYDDIO GWELY HAUL NIWEIDIO'CH CROEN A'CH GOLWG A CHYNYDDU EICH RISG O DDIODDEF GAN GANSER Y CROEN.
Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales
© Hawlfraint y Goron / Crown copyright Llywodraeth Cymru 2011 WG12252
Mae copiau pellach ar gael yn: www.cymru.gov.uk/iechyd

# Crynodeb o'r troseddau o dan y Rheoliadau

| Trosedd | Amddiffyniad Statudol | Uchafswm Dirwy |
|---|---|---|
| **Rheoliad 3.—(1) (a)** Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul mewn mangre gwelyau haul sy'n fangre ddomestig sicrhau na fydd neb sydd o dan 18 oed yn defnyddio yn y fangre honno wely haul y mae'r busnes yn ymwneud ag ef. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 3.—(1) (b)** Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul mewn mangre gwelyau haul sy'n fangre ddomestig sicrhau na fydd unrhyw gynnig yn cael ei wneud ganddo neu ganddi, neu ar ei ran ef neu hi, i drefnu bod gwely haul y mae'r busnes yn ymwneud ag ef ar gael i'w ddefnyddio yn y fangre honno gan berson sydd o dan 18 oed. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 4.—(1)** Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul sicrhau bod y defnydd o welyau haul y mae'r busnes yn ymwneud â hwy yn cael ei oruchwylio gan oruchwylydd. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 4.—(3)** Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul sicrhau bod goruchwylydd yn gymwys, ac mae goruchwylydd yn gymwys pan fo ganddo/ganddi ddigon o hyfforddiant a phrofiad neu ddigon o wybodaeth a rhinweddau eraill i'w g/alluogi i gyflawni'n briodol ofynion paragraff (2) rheoliad 4. - (2) (b). | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 5.—(1)** Rhaid i berson ("gwerthwr") beidio â gwerthu gwely haul i berson sydd o dan 18 oed. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 5.—(2)** Rhaid i berson ("huriwr") beidio â hurio gwely haul i berson sydd o dan 18 oed. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |

| Trosedd | Amddiffyniad Statudol | Uchafswm Dirwy |
|---|---|---|
| **Rheoliad 7.—(1)**<br>Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul roi i berson, bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul, yr wybodaeth ragnodedig am iechyd sydd wedi'i gosod allan yn Atodlen 1, a rhaid cynnwys yr wybodaeth honno mewn dogfen sy'n wastad ac yn betryal ac yn A4 o leiaf o ran maint ac wedi'u hargraffu mewn llythrennau duon, y gellir eu darllen yn rhwydd, ar gefndir melyn. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 7.—(2)**<br>Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul arddangos mewn man amlwg, lle y mae'n hawdd i berson ei weld bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul, hysbysiad sydd—<br>(a) yn cynnwys yr wybodaeth ragnodedig am iechyd sydd wedi'i gosod allan yn Atodlen 2 y Rheoliadau;<br>(b) yn A3 o leiaf o ran maint; ac<br>(c) wedi'i argraffu mewn llythrennau duon, o leiaf 20 milimetr eu maint, ar gefndir melyn. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 7.—(4)**<br>Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul beidio â darparu nac arddangos unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys datganiadau sy'n ymwneud ag effeithiau gwelyau haul ar iechyd ac eithrio'r wybodaeth ragnodedig am iechyd o dan baragraffau (1) a (2) o reoliad 7. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 8.—(1)**<br>Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul drefnu bod offer amddiffyn llygaid ar gael i berson bob tro y mae'r person hwnnw'n ceisio defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul; neu sicrhau bod gan berson offer amddiffyn llygaid gydag ef bob tro y mae'n ceisio defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul, a rhaid iddo sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl o fewn rheswm, fod person sy'n defnyddio gwely haul mewn mangre gwelyau haul yn gwisgo offer amddiffyn llygaid o'r fath. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |
| **Rheoliad 8.—(3)**<br>Caiff offer amddiffyn llygaid y trefnir iddynt fod ar gael yn unol â pharagraff (1) (a) rheoliad 8 fod yn offer llygaid untro, y mae'n rhaid cael gwared ohonynt ar ôl eu defnyddio; neu'n offer llygaid amlddefnydd y mae'n rhaid eu diheintio'n briodol cyn eu hailddefnyddio. | Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o gyflawni'r trosedd hwn i brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r trosedd hwnnw. | Lefel 5 (£5,000 ar hyn o bryd) |